Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 28 Ionawr 2014**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(175)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cynnydd ar Wella Caffael Cyhoeddus - gohiriwyd**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Adolygiad Annibynnol o Gydnerthedd Ffermio (30 munud)**

**6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bolisi Trafnidiaeth (30 munud)**

**7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i newid y drefn y caiff gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) eu trafod (5 munud)**

**NDM5414 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn canlynol:

a)adrannau 2-76

b)atodlen 1

c)adrannau 77 -133

d)atodlen 2

e)adrannau 134-169

f)atodlen 3

g)adrannau 170 - 183

h)adran 1

i)Teitl Hir

**8 Adroddiad y Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (60 munud)**

**NDM5412 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

Gallwch weld yr Adroddiad drwy ddilyn y ddolen isod: http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/public-service-governance-and-delivery/report/?lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddechrau'r cynnig ac ail-rifo yn unol â hynny:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi amserlen ar gyfer ymateb i'r argymhellion yn Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, a

2. Os bwriedir gweithredu'r argymhellion yn Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiffinio'r canlynol:

a) swyddogaeth a strwythur unrhyw ardaloedd awdurdodau lleol newydd;

b) system dryloyw ar gyfer monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth o wasanaethau yn yr ardaloedd hynny;

c) y nifer o etholwyr a ragwelir ar gyfer pob cynghorydd yn yr ardaloedd hynny.

**Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiad y Comisiwn am yr angen i leihau cymhlethdod mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn cadarnhau y dylai unrhyw newidiadau o ran darparu gwasanaeth cyhoeddus wella canlyniadau ar gyfer ein dinasyddion.

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi argymhelliad yr adroddiad i gychwyn y broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn gresynu na roddwyd ystyriaeth lawn i uno'r gwasanaethau hyn.

**Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, os cytunir ar ostyngiad yn nifer yr awdurdodau lleol, yna y dylai gostyngiad ddigwydd hefyd yng nghyfanswm nifer y cynghorwyr.

**Gwelliant 5 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi nad oedd diwygio'r drefn bleidleisio ar gyfer etholiadau cynghorau yn rhan o gylch gorchwyl Comisiwn Williams ond yn credu mai gweithredu Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy fyddai'r dull mwyaf priodol o ethol nifer llai o gynghorwyr.

Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oedd diwygio'r drefn bleidleisio yn rhan o gylch gorchwyl Comisiwn Williams ac yn credu y dylai unrhyw ad-drefnu ar lywodraeth leol gynyddu atebolrwydd drwy gyflwyno Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau cynghorau, fel yr argymhellwyd gan Gomisiwn Sunderland, ac fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 29 Ionawr 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 23 Ionawr 2014 i'w hateb ar 28 Ionawr 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd trafodaethau i ddiwygio'r fformiwla Barnett? OAQ(4)1445(FM)W

2. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl ym Mhowys? OAQ(4)1452(FM)

3. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyletswydd Byrddau Iechyd Lleol i gyfathrebu â'r cyhoedd? OAQ(4)1451(FM)

4. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am asbestos mewn ysgolion? OAQ(4)1446(FM)

5. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol? OAQ(4)1447(FM)

6. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau orthopedig yng ngogledd Cymru? OAQ(4)1456(FM)

7. Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)1453(FM)

8. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu presenoldeb sefydliadau rhyngwladol yng Nghymru? OAQ(4)1454(FM)

9. Byron Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gystadleurwydd economaidd Cymru? OAQ(4)1448(FM)
TYNNWYD YN OL

**10. Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag asbestos mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(4)1457(FM)W

**11. Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r economi yng Nghymru? OAQ(4)1458(FM)W

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rhwydwaith cefnffyrdd ym Mhowys? OAQ(4)1450(FM)

**13. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y targedau a fethwyd o ran amser aros achosion brys lle'r amheuir canser? OAQ(4)1455(FM)

**14. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i nodi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn fwy Diogel? OAQ(4)1460(FM)

**15. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Bil Cynllunio? OAQ(4)1459(FM)W

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 21 Ionawr 2014 i'w hateb ar 28 Ionawr 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

1. Christine Chapman (Cwm Cynon): Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i goffáu streic y Glowyr? OAQ(4)0104(CS)

2. Lynne Neagle (Torfaen): Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo chwaraeon yn Nhorfaen? OAQ(4)0115(CS)

3. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag arweinwyr llywodraeth leol ynglŷn â dyfodol llyfrgelloedd cyhoeddus? OAQ(4)0111(CS)

4. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o fynediad i gyfleusterau hamdden ledled Cymru? OAQ(4)0108(CS)

5. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei strategaeth a'i bolisi cenedlaethol ar gyfer chwaraeon, gweithgarwch corfforol a gweithgareddau hamdden egnïol yng Nghymru? OAQ(4)0112(CS)

6. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog cymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad? OAQ(4)0110(CS)

7. **Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am annog perchenogaeth gymunedol o chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)0109(CS)

8. Aled Roberts (Gogledd Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag awdurdodau lleol mewn perthynas â pharhad cyfleusterau hamdden ledled Cymru?  OAQ(4)0118(CS)W

9. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y meysydd chwaraeon artiffisial modern yng Nghymru, fel 3G a 4G? OAQ(4)0105(CS)

**10. Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo treftadaeth grefyddol Cymru? OAQ(4)0103(CS)

**11. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer hyrwyddo chwaraeon yn 2014? OAQ(4)0116(CS)

**12. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fanteision Llwybr Arfordir Cymru? OAQ(4)0113(CS)

**13. Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y nifer sy'n manteisio ar y Fenter Nofio am Ddim Genedlaethol yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)0107(CS)

**14. Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol nofio elit yn Abertawe? OAQ(4)0102(CS)

**15. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Pa baratoadau sydd wedi eu gwneud cyn bo Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn dod i rym yn ddiweddarach eleni? OAQ(4)0114(CS)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 4 Chwefror a dydd Mercher 5 Chwefror 2014

Dydd Mawrth 11 Chwefror a dydd Mercher 12 Chwefror 2014

Dydd Mawrth 18 Chwefror a dydd Mercher 19 Chwefror 2014

********************************************************************

Dydd Mawrth 4 Chwefror 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Cynnig i wahardd Rheol Sefydlog 12.20(i) i alluogi'r eitem nesaf o fusnes i gael ei thrafod (5 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas â phrynu tybaco ac yn y blaen ar ran plant, a gwahardd gwerthu nwyddau sy'n cynnwys nicotin (e-sigaréts ac yn y blaen) i bobl o dan 18 oed a chreu troseddau cysylltiedig (30 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (300 munud)
  Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.

Dydd Mercher 5 Chwefror 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)

- Cwestiynau i’r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)
- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Academi Heddwch Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Darren Millar (Gorllewin Clwyd) (30 munud)

Dydd Mawrth 11 Chwefror 2014

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl: Bil drafft Cymru (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (300 munud)
  Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig. Os nad yw’r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.

Dydd Mercher 12 Chwefror 2014

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ardaloedd Menter (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Peter Black (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 18 Chwefror 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad o Ddarparu Cymorth gyda'r Dreth Gyngor (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen i Ddileu TB Gwartheg (30 munud)
- Dadl: Setliad yr Heddlu 2014-15 (60 munud)
- Dadl: Cynnig i gytuno ar Femorandwm Llywodraeth Cymru ar y Broses Cydsyniad Deddfwriaethol (30 munud)
- Dadl: Dyfodol ein gorffennol – cyfeiriadau newydd ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru (60 munud)

**Dydd Mercher 19 Chwefror 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Ddyfodol Masnachfraint Cymru a'r Gororau (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru) (30 munud)